**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones, AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

3 Mehefin 2025

Annwyl Llywydd,

**Cofnod y Trafodion – 13 Mai 2025**

Ar ôl adolygu Cofnod Trafodion y Senedd o 13 Mai 2025, hoffwn egluro pwynt a wnes yn ystod y Cyfarfod Llawn.

Mewn ymateb i OQ62690 gan Delyth Jewell AS, dywedais:

> *"Mae'r rhaglen adfer, wrth gwrs, yn ymwneud â diogelwch. Weithiau, fe fydd angen symud glo o gwmpas, neu fe fydd angen symud rwbel yn cynnwys mwynau eraill, ac felly mae angen i'r Bil gwmpasu hynny.* ***Ond rydym ni wedi cael cwpl o brofion yn y llys yn ddiweddar o ran ein polisi ni, ac mae hwnnw wedi dal hyd yn hyn****."*

Yn ddiweddar, mae Gweinidogion Cymru wedi amddiffyn yn llwyddiannus adolygiad barnwrol a ddygwyd gan y Rhwydwaith Gweithredu Glo, a godwyd yn erbyn Gweinidogion Cymru a'r Awdurdod Glo, a oedd yn ceisio pennu cwmpas y pwerau sydd ar gael i'r Gweinidogion o dan Adran 26A o Ddeddf y Diwydiant Glo 1994. Er bod Polisi Glo Llywodraeth Cymru (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021) wedi'i drafod yn ystod yr adolygiad barnwrol hwn, nid dyna oedd sail yr her.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

**CC: Delyth Jewell AS**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
gohebiaeth.cwnsler.cyffredinol@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.